Uned 8.1 Cyhoeddi ar y we

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon mae disgyblion yn defnyddio technoleg we i lunio a chreu gwefan sy'n dangos 'rhith' ymweliad â'r ysgol. Mae grwpiau o bedwar disgybl yn dylunio ac yn lansio cyfres o dudalennau gwe wedi'u cysylltu. Yn ystod yr wyth gwers, dylai'r disgyblion ddatblygu digon o ddealltwriaeth am dechnoleg we i greu a gwerthuso gwefan effeithlon ac effeithiol. Bydd angen i chi helpu disgyblion i ddeall bod porwyr gwe yn arddangos tudalennau gwe mewn ffyrdd gwahanol a'u hatgoffa i ystyried hyn pan fyddant yn creu eu gwefannau.

Mae'r enghraifft o wefan a ddefnyddir yn yr uned hon yn 'rhith' ymweliad ag ysgol, ond gallech, os ydych yn dymuno, ei gyfnewid am unrhyw bwnc arall sy'n cyflawni'r un amcan dysgu.

Gellir defnyddio ystod o gymwysiadau i greu tudalennau gwe a gwefannau. I ddangos enghraifft o'r broses hon, mae'r uned hon yn defnyddio pecyn sylfaenol, Microsoft FrontPage Express, a gyfeirir ato trwy'r uned fel FrontPage Express.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cysylltu ag uned 2 'Gwybodaeth a chyflwyno' ac uned 8 'Systemau Gwybodaeth Cyhoeddus', sy'n cyfwyno'r syniad bod y rhyngrwyd yn storfa enfawr o ddata, ac sy'n annog disgyblion i ddefnyddio'r adnodd hwn i ymchwilio gwybodaeth ar bynciau penodedig.

Disgwyliadau

Ar ddiwedd yr uned hon

bydd mwyafrif y disgyblion: yn creu gwefan sy'n cynnwys graffeg a hypergysylltiadau i fannau eraill o fewn yr un dudalen, bydd yn cynnwys o leiaf un graffeg a dylai gynnwys cynnwys cydlynol ar bwnc a ddewisir gan y disgybl; yn defnyddio gwybodaeth o sawl ffynhonnell a chyflwyno'r wybodaeth hon mewn ffurfiau ac arddulliau gwahanol sydd at ddibenion a chynulleidfaoedd penodol; yn datblygu set o gyfarwyddiadau sy'n rheoli cysylltiadau a swyddogaethau awtomatig eu tudalen; yn myfyrio'n feirniadol er mwyn gwneud gwelliannau

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant: yn creu tudalen we sy'n cynnwys graffeg – bydd y ddogfen yn cyflwyno pwnc syml; yn deall anghenion cynulleidfa; yn dangos tystiolaeth o ddefnyddio cyfeiriadau i reoli digwyddiadau

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant: yn defnyddio cyfundrefnau sydd wedi'u hawtomeiddio i reoli digwyddiadau ar eu tudalen i wneud y wybodaeth a gynhwysir ynddynt yn fwy hygyrch i ystod o ddefnyddwyr, *e.e. rhannau o'r sgrîn sy'n newid wrth iddynt ymateb i symudiadau o'r llygoden;* yn cyflwyno eu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddangos dealltwriaeth glir o'r gynulleidfa; yn mireinio eu gwaith i wella ei ansawdd.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Geirfa ac Adnoddau

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon, bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu geirfa sy'n ymwneud â chyhoeddi ar y we yn gywir, *e.e. y fewnrwyd, HTML, hypergyswllt, warws data, llif gwybodaeth*

Adnoddau

Mae adnoddau'n cynnwys:

- mynediad i'r rhyngrwyd neu'r fewnrwyd
- meddalwedd cyhoeddi ar y we sy'n defnyddio tablau, neu brosesu geiriau, neu feddalwedd cyhoeddi pen desg
- meddalwedd graffeg sy'n cynnwys animeiddio ar gyfer swyddogaeth we

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 1			
• bod fformat y wybodaeth ar y rhyngrwyd yn cael ei chyflwyno yn wahanol i hynny sydd ar bapur • bod y ffyrdd y mae defnyddwyr yn cael mynediad i'r wybodaeth hon yn cael eu penderfynu gan ddyluniad y dudalen • bod un tudalen we yn gallu diwallu anghenion ystod o gynulleidfaoedd	• Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau i drafod y gwahaniaethau rhwng tudalen we a deunydd sydd wedi'i argraffu. Esboniwch natur llinol a sylfaenol deunydd sydd wedi'i argraffu, a natur ddynamig tudalennau gwe. • Pwysleisiwch fod dyluniad da yn hanfodol i'r ddau gyfrwng. Gofynnwch i'r disgyblion lunio tabl o bwyntiau i'w hystyried wrth drafod beth sy'n gwneud dyluniad da. • Esboniwch y gellir creu cysylltiadau gwahanol i ddiwallu anghenion darllen nifer o gynulleidfaoedd gwahanol. Wedyn dylai disgyblion gymharu tair gwefan wahanol, gyda phob un ohonynt wedi'u dewis am eu gwahaniaethau; gellir cynnwys fideo hefyd.	• deall bod dyluniad y tudalennau yn gallu dylanwadu ar y data y mae defnyddwyr yn cael mynediad iddo • deall y gellir dylunio tudalennau gwe ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol	• Mae'r uned hon yn dechrau drwy ganolbwyntio ar bob disgybl yn dylunio'r un dudalen a chysylltu tudalennau sydd â chynnwys gwahanol.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 2			
• gellir creu tudalennau gwe drwy ddefnyddio ystod o offer meddalwedd • bod angen defnyddio ystod o offer i adeiladu tudalen we a fydd yn awtomatig ac yn rhyngweithiol • gwneud penderfyniadau am strwythur	• Rhowch dudalen we syml i'r disgyblion sy'n cynnwys pennawd, lliw cefndir, testun, delwed a chyswllt syml rhwng adrannau o'r ddogfen. Gofynnwch i'r disgyblion newid agweddau gwahanol ar y ddogfen, gan ddangos sut mae'r feddalwedd awduro gwe yn trosi i HTML. • Esboniwch wrth y disgyblion sut i ddefnyddio darn perthnasol o feddalwedd i: – greu penawdau a thestun – creu cefndir (lliw neu graffeg) – mewnosod graffeg –creu tablau • Esboniwch wrth ddisgyblion sut i ddenfnyddio craidd cyffredin o ffontiau a sut i wneud penderfyniadau am strwythur	• defnyddio meddalwedd i greu tudalennau gwe • defnyddio offer meddalwedd i greu nodweddion unigryw i ddogfennau rhyngweithiol	• Dylai'r dudalen a gynhyrchir gan yr athro/athrawes gynnwys pennawd, lliw cefndir, testun, delwedd a chysylltiadau syml i adrannau eraill o'r ddogfen. Dylai gael ei reoli gan dabl. • Bydd y math o feddalwedd a ddefnyddir yn dibynnu ar yr offer sydd ar gael o fewn ysgol benodol • Gallai gweithgareddau 2 – 4 gynnwys grwpiau o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i gysylltu eu tudalennau • Mae'n debygol y bydd angen defnddio mwy nag un fath o offer. Gallai disgyblion ystyried y gwahaniaeth rhwng cyhoeddwr gwe un-pwrpas as is-set o swyddogaethau o fewn offer meddalwedd arall. Cyflwyno disgyblion i bwysigrwydd enwi confensiynau, *e.e. llythyren is*, ac i dechnegau i drawsnewid rhwng ffeiliau GIF a JPEG. Bydd yn rhaid i ddisgyblion ddeall pam mae'r trawsnewidiadau'n cael eu gwneud *e.e. tryloywder, nifer o liwiau*.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

• bod tudalen we'n cael ei chreu gan ddefnyddio iaith rhaglennu	• Edrychwch ar dudalen we syml, a'r cod sy'n gysylltiedig ag ef. Esboniwch y gellir ysgrifennu tudalennau drwy ddefnyddio HTML a dangos y cod i'r disgyblion.	• sylweddoli bod cod HTML yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu llawer o dudalennau gwe	• dylid dangos HTML fel y cod trawsnewid – sy'n cynnwys elfennau, e.*e. testun, delweddau, effeithiau cyflymdra.*

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 3			
• bod gwrthrychau'n gallu cael eu rhaglennu i gyflawni gweithrediadau • bod gwrthrychau'n gallu cael eu rhaglennu i ymateb yn awtomatig i ddigwyddiadau	• Esboniwch wrth y disgyblion sut i ddefnyddio darn perthnasol o feddalwedd i : – greu cysylltiadau – cynhyrchu animeiddiadau syml – creu botymau hofran a gweithdrefnau awtomatig eraill	• creu tudalen we sydd wedi'i gwneud o gyfres o wrthrychau • rhaglennu gwrthrychau i gyflawni nifer o dasgau	• Mae'n well dysgu animeiddio drwy becyn graffeg un-pwrpas sy'n cynnwys cyfleuster priodol • Mae'n cael ei ragdybio y bydd gweithdrefnau awtomatig yn cael eu creu drwy ddefnyddio offer meddalwedd, yn hytrach na thrwy ieithoedd y gellir eu rhaglennu.
Gweithgaredd 4			
• sut i ychwanegu cysylltiadau ar a rhwng tudalennau gwe	• Esboniwch fod angen mabwysiadu ymagwedd gyfannol wrth ddylunio tudalen we a bod yn rhaid ystyried cysyltiadau ymlaen ac yn ôl yn ystod y cam dylunio. Esboniwch y gellir creu setiau gwahanol o gysylltiadau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwahanol.	• ychwanegu cysylltiadau priodol i dudalennau	

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 5			
• dylunio tudalennau gwe sy'n seiliedig ar ddiddordeb personol • yr angen i fabwysiadau ymagwedd gyfannol at ddylunio tudalennau gwe • meddwl am y gynulleidfa y mae'r dudalen yn cael ei chreu ar ei chyfer • myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith a defnyddio'r gwerthusiad hwn i'w wella • am y cyfrifoldeb o gyhoeddi ar y rhyngrwyd	• Trafodwch pynciau addas ar gyfer tudalen we, a'r ystod o gynulleidfaoedd y gellir cynhyrchu'r dudalen ar eu cyfer. • Gofynnwch i'r disgyblion gynhyrchu siartiau corryn sy'n ystyried pynciau, cynnwys a chynulleidfa. •Gofynnwch i ddisgyblion benderfynu ar eu pwnc, ac ysgrifennu brîff byr. Gallai disgyblion weithio ar thema gyffredin mewn grwpiau o bump ac wedyn trefnu'r cysylltiadau rhwng eu tudalennau. Gofynnwch i ddisgyblion greu siart sy'n cynrychioli'r adrannau gwahanol a'r cysylltiadau rhyngddynt • Gofynnwch i ddisgyblion greu eu tudalennau gan ddefnyddio'r offer a gyflwynwyd o'r blaen • Anogwch y disgyblion i ddatblygu system i weethuso eu tudalennau, trwy ofyn cwestiynau gan bobl eraill sydd wedi cael mynediad i'w safle. • Trafodwch agweddau ar gyfrifoldeb wrth gyhoeddi gwaith ar y rhyngrwyd. Dylid mynd i'r afael â phynciau fel enllib, llên-ladrad, sensitifrwydd tuag at eraill, cydnabod ffynonellau a awduron. Dylid gofyn i ddysgyblion cyflwyno dadl ynghylch pam dylid cyhoeddi eu tudalennau ar y rhyngrwyd cyn bwrw ymlaen • Postio'r tudalennau terfynol ar fewnrwyd yr ysgol.	• deall ei bod yn bwysig ystyried dibenion ac amcanion wrth ddylunio gwe dudalen • creu cynnwys sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa darged • dylunio a chynhyrchu gwe tudalennau sy'n gysylltiedig â'i gilydd • gwerthuso eu gwaith a defnyddio hyn i'w wella • cyflwyno dadleuon o blaid cyhoeddi'n gyfrifol	• dylai'r dudalen gynnwys delwedd cefndir lliw, o leiaf dwy ddelwedd, ac o leiaf tri chyswllt mewnol • gallai disgyblion ddylunio gwe dudalennau gyda chysylltiadau a chynnwys ar gyfer mwy nag un cynulleidfa.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg